



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg
14 Mawrth 2019
Yr Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Cafwyd saith ymgeisydd y tro hwn, pump yng Nghaerdydd a dau yn Y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Trafodaeth, wedi'i noddi gan MEDDWL.ORG, ynghylch effaith llenyddiaeth ar iechyd meddwl. Cynhaliwyd y sesiwn yn y Babell Lên yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Alaw Griffiths, Angharad Gwyn, Sara Gibson a Wynford Elis Owen oedd y cyfranwyr.

Darn 2: "Cwricwlwm i Gymru: Heriau a Chyfleoedd" - cyflwyniad gan Dr Dylan Jones. Gwnaed y cyflwyniad mewn cynhadledd addysg genedlaethol yn Venue Cymru ar 23 Tachwedd, 2017.

Roedd yr aseswyr o'r farn bod y darnau'n addas ac yn brawf teg ar allu cyfieithydd ar y pryd profiadol. Roedd y cyntaf yn sgrysiol ac yn lled anffurfiol a'r ail yn gyflwyniad 'traddodiadol' i gynulleidfa broffesiynol a fyddai'n gyfarwydd iawn â'r pwnc trafod ac â therminoleg byd addysg.

Y SAFON

Drwyddi draw, roedd y safon eleni'n well na'r hyn a welwyd mewn profion diweddar. Dangosodd bob un o'r ymgeiswyr addewid gyda'r cryfaf yn eu plith yn cyfieithu'n eglur ac ystywyth mewn Saesneg naturiol ac idiomatig.

Geirfa

Ar y cyfan, roedd yr eirfa'n foddhaol a gwnaed defnydd effeithiol o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd:

Y Genhadaeth Genedlaethol > The National Mission

Dyfodol Llwyddiannus > Successful Futures (er bod rhai wedi cyfeirio at 'Successful Future')

addysgeg > pedagogy (er bod sawl un yn cael trafferth â'r ynganiad)

dibenion > purposes

hwyluso > facilitate

gwella > recover

atebolrwydd deallus > intelligent accountability

gorbryder > anxiety

ymdrech bendant > concerted effort

amrwd > raw

dehonglwyr beirniadol > critical interpreters

cymryd perchnogaeth o > take ownership of

aelod arweiniol > lead member

Fodd bynnag, cafwyd sawl enghraifft o gam-gyfieithu geiriau cymharol sylfaenol, er enghraifft:

canmol > celebrate
yn ddiwahân > undoubtedly / without doubt
goruchwylio > observe / supervise
yn anad dim > despite anything
guru > group / cohort
Cymry Cymraeg > Welsh people
arfer cymdeithasol > social norm
cymryd perchnogaeth > take continuity
gwefan > service
gwewyr > difficult time
arfer cymdeithasol > community practice / habit

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd rhannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyfleu natur y drafodaeth yn effeithiol gan ddehongli ac egluro cymalau a oedd yn aneglur eu hystyr yn y gwreiddiol.

Fodd bynnag, un o'r heriau mwyaf i gyfieithydd ar y pryd yw cyfleu hiwmor pan fydd siaradwr yn chwarae ar eiriau. Cafwyd enghraifft o hyn yn yr ail ddarn wrth i Dylan Jones drafod y Meysydd Dysgu a Phrofiad, neu'r MDPH/MDF, gan egluro mai rhywbeth "yn debycach i dderwen" oedd ei hangen yn hytrach nag MDF. Methiant oedd y rhan fwyaf o ymdrechion i ddehongli'r adran hon ac ni fyddai cynulleidfa ddi-Gymraeg wedi deall ergyd y sylwadau.

Cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu diangen, er enghraifft cyfieithu teitlau llyfrau a cham-gyfieithu 'BBC Cymru Fyw'.

Cystrawen, cywair ac idiom

Dros y blynyddoedd diwethaf, teg fyddai nodi mai ym maes cystrawen ac idiom y cafwyd y ffaeledau pennaf wrth i sawl ymgeisydd ddefnyddio Saesneg clogyrnaidd, anidiomatig.

Braf yw cael dweud nad oedd y gwendidau hyn mor amlwg eleni. Cafwyd sawl enghraifft o gyfieithu rhywiog gyda chystrawen ac idiom a oedd yn cyfleu naws y gwreiddiol:

you can't sugarcoat it
to get through those dark times
harmful behaviours
a huge debt of gratitude
gather my thoughts
born and bred in Cardiff
a willingness to take the initiative

Wedi dweud hynny, roedd gwendidau hefyd a phrin oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gynnal cystrawen ystwyth a safonol gydol y prafw:

what kind of information does young people need
through the form of a diary
to put the sweetener on the thing
the profession isn't given faith

Arddull a chyflwyniad technegol

At ei gilydd, roedd gan yr ymgeiswyr leisiau dymunol a llwyddwyd i liwio a gwahaniaethu rhwng siaradwyr yn effeithiol. Roedd tueddiad ar brydiau i'r cyfieithu fod yn herciog ac anwastad ac roedd ansicrwydd a nerfusrwydd – sy'n ddealladwy dan amodau prawf – yn brigo i'r wyneb gan lesteirio'r mynegiant yma ac acw.

Y CANLYNIAD

Dyfarnwyd bod pump o'r saith ymgeisydd yn llwyddo'r tro hwn. Ym marn yr aseswyr, roedd i bob ymgeisydd ei rinweddau ac anogir y rhai a fu'n aflwyddiannus i fwrw ati i ymarfer ac ennill profiad cyn rhoi cynnig arall arni'r flwyddyn nesaf.

GAIR O DDIOLCH

Hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrwyadl ac i staff y Gymdeithas a'r Prif Arholwr am eu cymorth, eu cefnogaeth a'u harweiniad parod gydol y broses profi hon.